

BTEC Diploma Vocational Studies - Sport & Public Services Level 1



Yn gwyno

Bydd y cwrs hwn yn rhoi ystod o gyfleoedd dilyniant i chi, gan gynnwys dysgu pellach yn y coleg ar un o'n cyrsiau lefel nesaf, prentisiaeth neu gyflogaeth.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ...Rydych yn ansicr beth rydych eisiau ei wneud
- ...Rydych eisiau cael sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy
- ...Rydych eisiau cael blas ar fywyd coleg

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae ein cyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol wedi'u cynllunio i'ch cyflwyno i'r maes astudio sydd o ddiddordeb i chi a'ch helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cewch gyfle i roi cynnig ar fwy nag un maes galwedigaethol a chael cipolwg ar fywyd y coleg. Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy a chwblhau tasgau sy'n canolbwyntio ar ddangos yr hyn y gallwch chi ei wneud a'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu.

Mae'r unedau craidd yr un fath ar draws ein holl gyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol, a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau yn eich maes galwedigaethol yr ydych wedi ei ddewis. Os oes angen i chi newid i gwrs gwahanol, gallwch drosglwyddo'r unedau a astudiwyd ar y cwrs hwn i'ch un nesaf, os oes angen.

Bydd yr unedau craidd y byddwch yn eu dilyn yn cynnwys unedau fel:

Bod yn drefnus
Datblygu cynllun dilyniant
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Yna, byddwch yn cwblhau unedau o Wasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon, a all gynnwys o bosib:

Cyfrannu i'ch Cymuned
Cynllunio ac arwain taith
Ymateb i ddigwyddiad
Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd
Chwarae chwaraeon
Cynorthwyo mewn gweithgaredd chwaraeon
Cael pobl i symud
Cadw'n heini ac yn iach

Byddwch yn cael eich asesu trwy aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol ac, ar ôl cwblhau, byddwch yn derbyn:

BTEC Lefel 1 Diploma mewn Astudiaethau Galwedigaethol

[Gweithgareddau sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#) (os nad ydych wedi cael Gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen i chi ymddiddori mewn dysgu am y gwahanol feysydd galwedigaethol.

Bydd angen i chi fod yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd yn y meysydd galwedigaethol.

Bydd disgwyl i chi ymarfer eich sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau gwaith realistig o fewn y coleg, er mwyn cynyddu eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn ofyniad gorfodol yn y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallwch barhau gyda'ch astudiaethau ar Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis, gallwch symud ymlaen i ddilyn prentisiaeth neu swydd yn eich maes o ddewis.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl i chi brynu cit i sicrhau eich diogelwch wrth ymgymryd â'r elfennau ymarferol. Mae cost hyn oddeutu £65-95.

Gallai costau ychwanegol ddigwydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol ynghyd â £ 40 ar gyfer cofrestru D o E.

Costau ychwanegol ar gampws Crosskeys £80 Pecyn ysgol a £45 ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

